



Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Undeb Bangor

Cadeirydd: Danny (IL Addysg) a Mared (Cadeirydd Myfyriwr ar gyfer y Panel Atebolrwydd)

Dyddiad: 06/10/2026

Lleoliad: PL5

1. Croeso

Croesawodd Danny y mynychwyr a dechreuodd o'r cyfarfod.

Isaac – Strategaeth Undeb Myfyrwyr

Siaradodd Isaac am strategaeth Undeb y Myfyrwyr, gan amlygu ei brif werthoedd a'r themâu allweddol.

2. Blaenoriaethau Swyddogion

Harry- Cefnogaeth Myfyrwyr a Hygyrchedd

Darparodd Harry ddiweddariad ar ymgyrchoedd hygyrchedd, gan gynnwys:

- Gwaith efo Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol (CCDP), efo'r Undeb Myfyrwyr yn datblygu adroddiad am ymgysylltiad staff a myfyrwyr efo trefniadau cefnogi.
- Adnabod bwlch rhwng disgwyliadau staff a myfyrwyr ynghylch cefnogaeth hygyrchedd. Fe fydd y darganfyddiadau'n cael eu rhannu efo'r Gwasanaeth Llesiant, ac rydyn ni'n edrych mewn i hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff.
- Cydweithio efo'r Tîm Profiad Myfyrwyr i edrych ar hygyrchedd ar hyd adeiladau'r brifysgol.
- Trafodaethau'n parhau gydag Ystadau ynghylch arwyddion gwell ar gyfer ystafelloedd a chyfleusterau dysgu.

- Ymgyrchu'n llwyddiannus dros wefan newydd i'r brifysgol, wnaeth lansio'n ddiweddar.
- Cynlluniau i gefnogi myfyrwyr LHDTC+ yn bellach, gan gynnwys gwelliannau i'r Ddawns Balchder blynyddol.

Isaac- Cymunedau Myfyrwyr ac Ymgysylltu

Amlygodd Isaac sawl ymgyrch:

- Cynnwys grwpiau myfyrwyr yn Niwrnodau Agored y Brifysgol er mwyn cefnogi recriwtio myfyrwyr a chynyddu gwelededd clybiau a chymdeithasau.
- Annog darpar fyfyrwyr i gysylltu efo grwpiau cyn cyrraedd yn y brifysgol trwy fynediad cynnar at rwydweithiau cymunedol a sgysiau grŵp.
- Darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio i gryfhau eu CV.
- Lansio'r ymgyrch mewn Diwrnodau Agored sydd i ddod efo tua 10-15 grŵp yn cymryd rhan.
- Datblygu cyfleoedd i ôl-raddedigion gael cyfarfod, wedi selio ar adborth holiaduron wedi ei gasglu dros yr haf.
- Cynyddu'r defnydd o'r Lolfa Fyfyrwyr fel man cymdeithasol a lle i rwydweithio ar gyfer myfyrwyr ôl-radd.
- Cefnogi parhad ymgyrch Neve, "Mynd Tu Allan", er mwyn annog gweithgareddau sy'n digwydd yn yr awyr iach.
- Cyflwyno cydnabyddiaeth well o lwyddiannau myfyrwyr trwy wobrau fel Athletwr yr Wythnos, Aelod o Gymdeithas yr Wythnos a Gwirfoddolwr y Mis.

Danny- Cyflogadwyedd a Mannau Astudio

Trafododd Danny:

- Cynnydd ar y cynllun interniaeth a'r agenda cyflogadwyedd ehangach.
- Cynlluniau i hyrwyddo digwyddiadau cyflogadwyedd wedi eu harwain gan fyfyrwyr, a chynyddu cydweithrediad gyda'r Brifysgol.
- Gweithio efo'r gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd er mwyn gwella cyfleoedd sy'n cael eu hysbysebu trwy CareerConnect.
- Gwaith sy'n parhau efo'r Brifysgol ynghylch mannau astudio, gan gynnwys gwelliannau i gyfleusterau o fewn CoLab ac Adeilad Alun.

- Cadarnhad fod oriau agor y Brifysgol ar gyfer mannau astudio yn mynd i gael eu hehangu.

Ross- Blaenoriaethau UMCB

Amlinellodd Ross ei nodau ar gyfer eleni:

- Cynyddu ymgysylltiad efo UMCB ymysg myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a dysgwyr Cymraeg.
- Cynyddu lefelau'r bobl sy'n aros yn JMJ, y neuadd cyfrwng-Cymraeg.
- Codi proffil UMCB ar hyd y campws.
- Datblygu gwasanaethau cefnogi a dysgu cyfrwng-Cymraeg.
- Cryfhau marchnata ymgyrchoedd fel Ffrind Cymraeg a chynyddu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Adeiladu ar ymgyrchoedd llwyddiannus blaenorol fel Penben UA a dathlu llwyddiannau myfyrwyr Cymraeg.

Neuadd JMJ

Mi wnaeth Ross gydnabod y dirywiad mewn lefelau o bobl sy'n aros yno, ac amlinellu gobeithion i gynyddu'r nifer i 80% o gapasiti'r adeilad, gan gynnwys:

- Marchnata pellach i'r neuadd.
- Hyrwyddo fflatiau di-alcohol cyfrwng-Cymraeg.
- Amlygu argaeledd nyrsys sy'n siarad Cymraeg.
- Annog dysgwyr Cymraeg a myfyrwyr trydedd-flwyddyn i ystyried neuadd JMJ.

Llesiant a Niwroamrywiaeth

Cadarnhaodd Ross y bydd o'n gweithio efo'i Dîm Gweithredol er mwyn gwella cefnogaeth ar gyfer llesiant, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl trwy lysgenhadon myfyrwyr penodol.

Ffrind Cymraeg

Trafododd Ross gynlluniau i hyrwyddo Ffrind Cymraeg yn well a datblygu sesiynau wedi eu teilwra. Mae trafodaethau'n digwydd efo'r Ysgol Feddygol a'r Ysgol Addysg dros gael myfyrwyr yn cymryd rhan fel rhan o'u hyfforddiant.

3. Cadarnhad o'r Cofnodion Diwethaf

Mi gafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cymeradwyo gan y mynychwyr.

4. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Cafodd yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol eu cyflwyno i aelodau.

Ymlyniadau

Cafodd ymlyniadau eu cymeradwyo gan y mynychwyr.

5. Panel Atebolrwydd a Chwestiynau

Ffrind Cymraeg

Dywedodd Ross:

- Bod sesiynau Ffrind Cymraeg wedi eu creu fel cyfleoedd ymarfer iaith a gallent fod yn heriol ar gyfer dechreuwyr llwyr.
- Dylai myfyrwyr ystyried cyrsiau dysgu Cymraeg trwy Ganolfan Bedwyr.
- Mae gan fyfyrwyr fynediad at SaySomethinginWelsh trwy'r Brifysgol, gan osgoi costau tanystrifio unigol.
- Mae cyfleoedd dysgu ar-lein, wyneb-yn-wyneb, a chymunedol ar gael.

Turnitin

Dywedodd Harry:

- Mae Undeb y Myfyrwyr yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn gweithredu efo'r Brifysgol yn ei gylch.
- Ni fydd unrhyw newidiadau posib yn digwydd cyn mis Medi 2027.
- Mae'r Undeb yn casglu gwybodaeth a byddant yn anfon diweddariadau at fyfyrwyr pan yn bosib.

Newid Hinsawdd

Esboniodd Danny nad oedd swyddogion wedi gweld y cwestiwn hwn o flaen llaw ac eisiau rhoi ymateb wedi ei ystyried yn ofalus.

Mae'r pwyntiau o godwyd yn cynnwys:

- Ymdrechion gan Undeb y Myfyrwyr i leihau a nwyddau marchnata a hyrwyddo diangen.

- Cadw dipyn o farchnata corfforol pan mae'n fuddiol.
- Cefnogaeth ar gyfer ymgyrchoedd cynaliadwyedd, gan gynnwys pryderon dros ddatblygiad posib y ganolfan ddata.
- Cydnabyddiaeth o ymroddiad y Brifysgol i gynaliadwyedd trwy ei chysiau a'i modd sefydliadol ehangach.

Datblygiad y Ganolfan Ddata

Cynghorodd Danny fyfyrwyr:

- I ddilyn ymgynghoriad swyddogol a phrosesau cynllunio.
- I gyflwyno sylwadau trwy ymgynghoriad cynllunio'r awdurdod lleol.
- I gyfrannu cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad ar yr 17^{eg} o Hydref.
- I fonitro gwybodaeth sy'n cael ei rannu gan Undeb y Myfyrwyr o ran ei ymateb ei hun.

Cadarnhaodd Undeb y Myfyrwyr na fydd yn trefnu eu gwrthdystiadau eu hun ond fe wnaethon nhw gydnabod digwyddiadau wedi eu trefnu'n allanol.

Myfyrwyr Rhyngwladol

Amlygodd Isaac:

- Cymunedau myfyrwyr diwylliannol, ac sydd wedi eu selio ar genedligrwydd, sy'n bodoli'n barod.
- Trafodaethau blaenorol ynghylch Cymdeithas Ryngwladol, gan nodi cyfyngiadau adnoddau.
- Pwysigrwydd ymgysylltu â chymdeithasau diwylliannol a mynychu'r Ffair Ddiwylliannol.

Prosiectau Gwirfoddoli

Ymrwymodd Isaac i:

- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli'n well.
- Arddangos yr effaith mae gwirfoddolwyr yn ei gael trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gynyddu cydweithrediad efo grwpiau gwirfoddoli.
- Godi ymwybyddiaeth o'u cyfraniad at y gymuned leol.

Cynrychiolaeth Grwpiau Lleiafrifol

Cadarnhaodd Danny ymrwymiad yr Undeb at welededd ac ymgysylltiad efo pob grŵp myfyrwyr trwy fynychu digwyddiadau a thrafodaethau parhaus.

Anogodd o fyfyrwyr i ddefnyddio prosesau democrataidd fel y broses Gwneud Newid, gan nodi fod blaenoriaethau fel mannau astudio ôl-radd wedi dod trwy'r broses yma.

Clybiau Chwaraeon sydd ddim yn rhan o BUCS

Mi wnaeth Isaac gydnabod y rhwystredigaeth mae clybiau sydd ddim yn rhan o BUCS wedi teimlo, gan ymrwymo i:

- Hyrwyddo cystadlaethau, digwyddiadau hyfforddi a chodi arian yn well.
- Fwy o bresenoldeb swyddogion mewn digwyddiadau clwb.
- Gydabyddiaeth well o lwyddiannau ar hyd pob cymuned chwaraeon.

Perthynas rhwng UMCB a'r Gymuned Fyfyrwyr Ehangach

Cytunodd Ross y dylai UMCB fod yn rhan fwy o'r corff myfyrwyr ehangach, gan amlygu cynlluniau i:

- Gynyddu cydweithrediad efo dysgwyr Cymraeg.
- Weithio'n agosach efo cymunedau myfyrwyr a chymdeithasau.
- Ehangu faint maent yn cymryd rhan mewn prosiectau gwirfoddoli.
- Wella cyfathrebiad a gwelededd trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Cefnogaeth i Gymdeithasau Tu Hwnt i Gyllid

Amlygodd Isaac gynlluniau i:

- Gynyddu cyfleoedd i gymdeithasau gael cymryd rhan mewn cyfarfodydd ôl-radd a digwyddiadau eraill.
- Ddarparu cyfleoedd i rwydweithio.
- Annog dealltwriaeth well o grwpiau myfyrwyr ar hyd campws.

Lleisiau Myfyrwyr Cymraeg

Mi wnaeth Ross ailadrodd pwysigrwydd bod yn gynrychiolydd gweledol a chyfeillgar ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, a chynyddu ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

Diogelwch Merched

Trafododd Ross:

- Ei ddiddordeb academiaidd mewn ymchwil i gamdriniaeth domestig.

- Cydweithrediad efo Pwyllgorau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Ystyriaeth o ymgyrch Hawlio'r Nos yn Ôl, yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar y campws.
- Pwysigrwydd cefnogaeth llesiant ac iechyd meddwl.

Digwyddiadau Merched-yn-Unig

Amlygodd Isaac ymgyrchoedd sy'n bodoli'n barod, a rhai sydd wedi eu cynllunio, gan gynnwys:

- Paneli Merched mewn Chwaraeon.
- Wythnos benodol ar gyfer Merched mewn Chwaraeon wedi ei drefnu gan Undeb y Myfyrwyr.

Creu Newid yn ystod Cyfnod o Flwyddyn

Mi wnaeth Harry gydnabod y sialens o greu newidiadau sylweddol o fewn blwyddyn yn unig, gan nodi pwysigrwydd blaenoriaethu nifer fach o nodau allweddol er mwyn cael yr effaith fwyaf posib.

Cefnogaeth ar gyfer Myfyrwyr Traws

Cadarnhaodd Harry ei ymrwymiad at fyfyrwyr LHDTG+, gan amlygu:

- Ymgysylltiad gwell efo ymgyrchoedd LHDTG+.
- Cefnogaeth barhaus at y Ddawns Balchder.
- Datblygiad y Lle Ge fel cyfleuster cynhwysol ac ardal gymunedol.

Cau'r Cylch Adborth

Mi wnaeth Danny gydnabod nad ydi adborth myfyrwyr yn cael eu cyfathrebu'n ôl yn effeithiol bob tro, gan gadarnhau fod gwella prosesau adborth a chyfathrebiad dal yn flaenoriaeth.

Cyllid ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau

Trafododd Isaac:

- Sialensiau parhaus sy'n ganlyniad i ostyngiadau cyllid.
- Costau teithio, cyfranogiad a gweithgareddau sy'n codi.
- Pwysigrwydd ceisiadau grant mewn dangos yr angen a chefnogi penderfyniadau cyllid.

- Anogaeth ar gyfer grwpiau i barhau i godi arian a gwneud ceisiadau ar gyfer grantiau sydd ar gael.

Clybiau a Chymdeithasau yn Cymryd Rhan mewn Diwrnodau Agored

Cadarnhaodd Isaac:

- Mi fydd grwpiau Gweithredwyr Cymuned yn treialu cymryd rhan mewn Diwrnod Agored i ddechrau.
- Os yn llwyddiannus, bydd cyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu hehangu trwy broses gwneud cais.
- Gall Bar Uno gael ei ddefnyddio fel man ymgysylltu.

Cefnogaeth Cymdeithas Ryngwladol

Cadarnhaodd Danny fod cyfyngiadau adnoddau yn cyflwyno heriau ond fe wnaeth o annog myfyrwyr sydd â diddordeb mewn creu cymdeithasau diwylliannol neu wedi eu selio ar genedligrwydd i gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr, ac i gymryd rhan yn y Ffair Ddiwylliannol.

Hygyrchedd mewn Darlithoedd a Gwaith Maes

Pwysleisiodd Harry:

- Yr angen i ddeall anghenion myfyrwyr yn well.
- Pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth a ffyrdd i dynnu sylw at wasanaethau cefnogi sy'n bodoli'n barod.

Creu Cymuned Myfyrwyr Unedig

Pwysleisiodd Danny bwysigrwydd swyddogion yn mynychu digwyddiadau myfyrwyr ac ymgysylltu'n uniongyrchol efo cymunedau. Anogodd o fyfyrwyr i gyflwyno awgrymiadau am weithgareddau ac ymgyrchoedd hoffent weld yn cael eu datblygu.

Cefnogaeth Cyfieithu ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau

Cynghorodd Ross:

- Fod cefnogaeth cyfieithu ar gael trwy Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan Bedwyr.
- Dylid annog grwpiau myfyrwyr i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.
- Dylid osgoi offer cyfieithu DA pan yn bosib.

Ffioedd Aelodaeth Pwyllgor

Gwnaeth Isaac gydnabod pryderon ynglŷn ag aelodau pwyllgor yn talu ffioedd aelodaeth a'r cyfraniad gwirfoddol sylweddol mae arweinwyr myfyrwyr yn gwneud. Mi wnaeth o

nodi pa mor bwysig ydi hi fod aelodau pwyllgor yn arwain trwy esiampl, tra hefyd yn deall y baich sy'n dod efo hyn.

Hygyrchedd mewn Chwaraeon

Amlygodd Isaac ymgyrchoedd parhaus, sy'n cynnwys:

- Sesiynau sy'n gynhwysol i ddefnyddwyr cadair olwyn mewn chwaraeon fel rygbi a phêl rwyd.
- Ymdrechion i ehangu cyfleoedd hygyrch i gymryd rhan mewn chwaraeon ychwanegol.
- Enghreifftiau o weithgaredd cynhwysol sydd ar gael yn barod trwy chwaraeon, gan gynnwys ffensio, jiwdo a theithiau cerdded mynydd lefel-isel.

Ymgyrch Movember

Amlinellodd Isaac gynlluniau ar gyfer yr ymgyrch Movember sydd i ddod, gan gynnwys:

- Cydweithrediad efo clybiau a chymdeithasau.
- Mwy o hyrwyddo a chymryd rhan.
- Recriwtio mwy o lysgenhadon myfyrwyr.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Gwneud Penderfyniadau ar Lefel Sefydliadol

Esboniodd Danny fod:

- Cynrychiolwyr myfyrwyr yn rhan o ystod o baneli a phwyllgorau'r Brifysgol.
- Cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan gyson o drafodaethau sefydliadol.
- Myfyrwyr yn gallu defnyddio'r broses Gwneud Newid i sefydlu blaenoriaethau amgylcheddol i'r Undeb Myfyrwyr allu hyrwyddo.

Gwneud Newid

Cafodd y cyfarfod drosolwg o'r broses Gwneud Newid a'r system Tracio Llais, gan gynnwys sut all myfyrwyr gyflwyno syniadau a monitro cynnydd.

6. Enillwyr y Gwobrau

Cafodd raffl ei gynnal, efo tri rhif enillydd yn cael eu dewis.

7. Cau'r Cyfarfod

Diolchodd y Cadeiryddion i'r mynychwyr am gymryd rhan, a chaeon nhw'r cyfarfod.